

Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

Practis Deintyddol Woodfield Street, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 27 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2024



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-629-2
© Hawlfraint y Goron 2024



Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Woodfield Street yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar, gofalggar a phroffesiynol i'r cleifion.

Roedd yn amlwg bod staff y practis yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion yn ystod eu hapwyntiadau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr holiaduron cleifion a gwblhawyd.

Roedd polisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Woodfield Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 27 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein [gwefan](#).



Ansawdd Profiad y Claf



Crynodeb Cyffredinol

Roedd yn amlwg bod y staff ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Nododd pob un o'r 35 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai rheolwr y practis holi'r bwrdd iechyd ynghylch defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu yn y practis.
- Dylai'r practis ddarparu mwy o wybodaeth ddwyieithog i gleifion yn yr ardal aros.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar.
- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn, gan ddweud wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Dyweddodd y cleifion wrthym:

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

“Rwyf wedi bod yn dod yma ers mwy na 30 mlynedd. Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblemau.”

“Mae'r practis deintyddol hwn yn gyfeillgar ac yn effeithlon.”

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol



Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol.

Roedd yr ardaloedd cymunedol a chlinigol hefyd yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth bod polisiâu a gweithdrefnau amrywiol ar waith i reoli heintiau yn y practis.

Gwelodd AGIC fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r practis roi dystiolaeth o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod cynhyrchion gwynnu dannedd yn cael eu storio ar wahân i fwyd a diod y staff

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Posterï ar gefn y drws yn nhoiledau'r cleifion, yn nodi'r manylion cyswllt ar gyfer cymorth i ddioddefwyr, cymorth iechyd meddwl ac i roi gwybod am bryderon diogelu
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.



Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Woodfield Street.

Roedd amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar waith yn y practis, a oedd ar gael i'r staff i'w cefnogi wrth eu gwaith. Roedd pob un o'r polisiau yn gyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith.
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

